Llywodraeth Cymru
Welsh Government

CYHOEDDIAD, DOGFENNU

# Cyfarfod Fforwm Gwydnwch Cymru 14 Mai 2025

Crynodeb o gofnodion cyfarfod Fforwm Gwydnwch Cymru a gynhaliwyd ar 14 Mai 2025.

**Cyhoeddwyd gyntaf:** 15 Gorffennaf 2025

**Diweddarwyd ddiwethaf:** 15 Gorffennaf 2025

# Cynnwys

**Croeso a chyflwyniad** (https://www.llyw.cymru/pdf-optimised/node/69643#177060)

**Fframwaith Gwydnwch Cymru a'r Cynllun Cyflawni** (https://www.llyw.cymru/pdf-optimised/node/69643#177062)

**Cylch gorchwyl Fforwm Gwydnwch Cymru** (https://www.llyw.cymru/pdf-optimised/node/69643#177064)

**Sylfaen dystiolaeth risg Cymru** (https://www.llyw.cymru/pdf-optimised/node/69643#177066)

**Rhaglen alluoedd** (https://www.llyw.cymru/pdf-optimised/node/69643#177068)

**Ymarfer Pegasus** (https://www.llyw.cymru/pdf-optimised/node/69643#177070)

**Sylwadau i gloi** (https://www.llyw.cymru/pdf-optimised/node/69643#177072)

# Croeso a chyflwyniad

Cadeiriwyd y cyfarfod cyntaf hwn o Fforwm Gwydnwch Cymru, sydd newydd ei ddiwygio, gan y Prif Weinidog, Eluned Morgan AS. Roedd yn dod ag arweinwyr o bob sector ynghyd i drafod sut y gall Cymru adeiladu dyfodol mwy diogel a gwydn. Agorodd y Prif Weinidog y cyfarfod drwy ddathlu'r ffaith bod Fframwaith Gwydnwch Cymru wedi'i gyhoeddi. Cydnabyddodd y Prif Weinidog gyfraniad y gymuned gwytnwch wrth ddatblygu'r ddogfen nodweddiadol, sy'n darparu gweledigaeth glir a rennir ar gyfer gwella'r parodrwydd am argyfyngau a'r ymateb iddynt yng Nghymru.

# Fframwaith Gwydnwch Cymru a'r Cynllun Cyflawni

Darparwyd trosolwg i'r Fforwm o'r Fframwaith a'i bwysigrwydd wrth osod y weledigaeth a'r cyfeiriad strategol ar gyfer gwytnwch yng Nghymru.

Roedd y Cynllun Cyflawni cysylltiedig yn amlinellu camau penodol i'w cymryd yn y tymor byr, y tymor canolig a'r tymor hir. Roedd hefyd yn atgyfnerthu ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ymgorffori gwytnwch ym mhob maes gwasanaeth cyhoeddus.

Croesawodd y Fforwm y cyfle i fod yn rhan o ddatblygu'r strategaeth wydnwch gyntaf i Gymru a chydnabyddodd y dull partneriaeth parhaus sydd ei angen i wella a datblygu ar y meysydd a nodwyd yn y cynllun cyflawni.

# Cylch gorchwyl Fforwm Gwydnwch Cymru

Roedd yr eitem nesaf ar yr agenda yn ystyried y model llywodraethu tair haen newydd, a gyflwynwyd i gefnogi cyflawni'r Fframwaith a'i Gynllun Cyflawni. Mae'r

model llywodraethu tair haen newydd yn cynnwys:

- Lefel strategol: Fforwm Gwydnwch Cymru, sy'n darparu arweinyddiaeth genedlaethol.
- Lefel cydlynu: Partneriaeth Gwydnwch Cymru, sy'n alinio ymdrechion ar draws sectorau.
- Lefel weithredol Is-grwpiau sy'n canolbwyntio ar gyflawni camau gweithredu ymarferol.

Mae'r strwythur newydd hwn yn symleiddio prosesau, yn cryfhau atebolrwydd, ac yn sicrhau bod gan bob partner rôl a llais clir.

Ystyriwyd y cylch gorchwyl diwygiedig ar gyfer y Fforwm gan yr aelodau, a oedd yn darparu pwrpas clir i'r Fforwm yn ogystal â chadarnhau ei aelodaeth newydd. Cytunodd yr aelodau i gwrdd tair gwaith y flwyddyn, gan gynnwys uwchgynhadledd flynyddol dan gadeiryddiaeth y Prif Weinidog. I sicrhau tryloywder, byddai crynodeb o bob cyfarfod yn cael ei gyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru.

Penderfyniad:  Cytunwyd ar y cylch gorchwyl.

## Sylfaen dystiolaeth risg Cymru

Darparwyd trosolwg o'r sylfaen dystiolaeth risg newydd a'r cynigion i sicrhau y byddai'n cael ei hadolygu a'i diweddaru yn y dyfodol. Tynnodd y cyfarfod sylw at y rôl bwysig a chwaraeodd y dogfennau hyn wrth sicrhau dealltwriaeth a rennir gan yr holl bartneriaid o'r risgiau sy'n wynebu Cymru ac wrth helpu i flaenoriaethu cynllunio ar gyfer parodrwydd a'r gallu i ymateb.

## Rhaglen alluoedd

Darparwyd trosolwg o raglen alluoedd arfaethedig Llywodraeth Cymru, sy'n rhan

bwysig o Fframwaith Gwydnwch Cymru, a oedd yn cynnwys cynigion i wella'r gallu i reoli ac ymateb i argyfyngau ac adfer. Mae'r rhaglen yn cynnwys (ymhlith pethau eraill):

- adolygiad ar lefel Cymru gyfan o'r angen am system rheoli gwersi i rannu arferion da ar draws sefydliadau
- calendr hyfforddi ac ymarfer Cymru gyfan i sicrhau parodrwydd cyson
- cydweithio parhaus ag Academi Gwydnwch y Deyrnas Unedig i broffesiynoli gwaith gwytnwch

Dywedodd aelodau'r Fframwaith fod y rhaglen alluoedd yn arbennig o amserol wrth i Gymru baratoi ar gyfer digwyddiadau mawr fel Pencampwriaeth Pêl-droed Ewrop UEFA yn 2028, a fyddai'n gofyn am seilwaith a chynllunio cadarn ar gyfer argyfyngau.

## Ymarfer Pegasus

Clywodd y Fforwm am Ymarfer Pegasus, sef ymarfer parodrwydd am bandemig ledled y Deyrnas Unedig a ddatblygwyd ar y cyd gan Asiantaeth Diogelwch Iechyd y Deyrnas Unedig (UKHSA), yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol ac adrannau eraill y Llywodraeth.

Pwysleisiodd Prif Weinidog fod bod yn barod yn hanfodol i sicrhau bod Cymru yn gallu ymateb yn effeithiol i argyfyngau iechyd yn y dyfodol.

## Sylwadau i gloi

Daeth y Prif Weinidog â'r cyfarfod i ben drwy ddiolch i'r aelodau am eu presenoldeb a nodi eu cyfraniadau gwerthfawr, gan ailddatgan ymrwymiad Llywodraeth Cymru i barhau i ymgysylltu â rhanddeiliaid ar faterion gwytnwch.

**Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch.**
Drllenwch ein **datganiad hygyrchedd** (/datganiad-hygyrchedd-llywcymru) i gael rhagor o wybodaeth.